# Canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwydded amgylcheddol:
# Rhan E1 – Hysbysiad ildio (gweithgareddau gollwng dŵr a gweithgareddau dŵr daear)

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn i chi lenwi'r ffurflenni. Mae'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar gael ar ein gwefan. Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i gwblhau rhan E1 o'r pecyn ffurflen gais.**

Pan fyddwch yn gweld y term 'cyfeirnod y ddogfen' ar y ffurflen, nodwch gyfeirnodau'r dogfennau ac anfonwch y dogfennau gyda'r ffurflen gais pan fyddwch wedi'i chwblhau. Os byddwch yn cyflwyno dogfennau nad oes eu hangen, nodwch na chânt eu hasesu.

**Sut i gysylltu â ni:** Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r person a'i hanfonodd atoch neu cysylltwch â ni drwy:
Ymholiadau cyffredinol dros y ffôn: 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm).
E-bost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru

**Ble i anfon eich cais:** Gallwch anfon eich cais drwy e-bost neu yn y post. Gallwn brosesu ceisiadau yn gyflymach os byddwn yn eu derbyn drwy e-bost (yn electronig). Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i:
E-bost: canolfanderbyntrwyddedau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Post: Canolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Anfonwch; 1 copi electronig neu CD/cofbin ac 1 copi papur, NEU 2 gopi papur.

Cynnwys
1 Y drwydded
2 Eich hysbysiad ildio
3 Ildio eich trwydded amgylcheddol gyfan
4 Ildio rhannau o'ch trwydded amgylcheddol
5 Y dyddiad yr hoffech ildio'r drwydded gyfan neu rannau o'r drwydded
6 Datganiad

## 1 Y drwydded

### 1a Rhif y drwydded

Mae'n bosibl y cyfeirir at rif y drwydded hefyd fel eich 'rhif caniatâd' neu eich 'rhif awdurdodiad' mewn dogfennau a gyhoeddwyd cyn 6 Ebrill 2010.

### 1b Enw'r gweithredwr

Enwch bob un o ddeiliaid presennol y drwydded. Mae'n bosibl y byddant wedi'u henwi ar y drwydded neu ar y dystysgrif deiliadaeth.

### 1c Manylion y safle

Llenwch enw, cyfeiriad a chod post y safle. Dylai enw'r safle lle y cynhelir gollyngiadau fod wedi'i nodi ar y drwydded.

## 2 Eich hysbysiad ildio

Ticiwch y blwch '**y drwydded gyfan**' os hoffech ildio'r holl ollyngiadau a reolir gan eich trwydded, caniatâd neu awdurdodiad. Drwy dicio'r blwch hwn, rydych yn datgan nad oes angen eich trwydded arnoch mwyach. Os bydd y gwaith gollwng yn parhau ar ôl i chi ildio eich trwydded, gellir eich erlyn. Os byddwch am ddechrau'r gwaith gollwng eto yn y dyfodol, bydd angen i chi wneud cais am drwydded newydd.

<u>Ar gyfer gwaredu trochdrwyth defaid a ddefnyddiwyd/gwastraff yn unig</u>
Os ydych yn newid eich arfer o drochi defaid i ddefnyddio cawod neu bistyllydd a'ch bod yn cynhyrchu unrhyw gynnyrch gwastraff, bydd angen trwydded arnoch o hyd. Hefyd, bydd angen trwydded arnoch o hyd os ydych yn bwriadu gollwng trochdrwyth pyrl neu flŵm yn unig.

Ticiwch y blwch '**rhan o'r drwydded**' os hoffech ildio un neu fwy o'r gollyngiadau a reolir gan eich trwydded, caniatâd neu awdurdodiad, ond nid pob un ohonynt.

Drwy dicio'r blwch hwn, rydych yn datgan nad oes angen y gollyngiadau ar eich trwydded y byddwch yn eu nodi yn Nhabl 1 (adran 3) arnoch mwyach. Os bydd y gwaith gollwng yn parhau o ran o'ch trwydded a ildiwyd gennych, gellir eich erlyn. Os byddwch am ddechrau'r gwaith gollwng o'r rhan hon eto yn y dyfodol, bydd angen i chi wneud cais am drwydded newydd.

Ar gyfer gwaredu trochdrwyth defaid a ddefnyddiwyd yn unig

Os ydych yn newid eich arfer o drochi defaid i ddefnyddio cawod neu bistyllydd a'ch bod yn cynhyrchu unrhyw gynnyrch gwastraff, bydd angen trwydded arnoch o hyd. Hefyd, bydd angen trwydded arnoch o hyd os ydych yn bwriadu gollwng trochdrwyth pyrl neu flŵm yn unig.

Bydd unrhyw daliadau sy'n berthnasol i unrhyw ollyngiadau sy'n weddill a reolir gan y drwydded hon yn berthnasol o hyd.

## 3 Ildio rhan neu rannau o'ch trwydded amgylcheddol

### 3a Rhannau o'r drwydded rydych am eu hildio

Mae angen i ni wybod pa ollyngiadau ar eich trwydded rydych am eu hildio a pha rai rydych am eu cadw.

Llenwch Dabl 1 gan nodi'r gollyngiadau rydych am eu hildio yn unig. Gweler y tair enghraifft yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1 – Rhannau o'r drwydded rydych yn eu hildio**

| Disgrifiad o'r gweithgaredd gollwng dŵr (nodwch yr elifiant) | Disgrifiad o'r gweithgaredd gollwng dŵr daear (nodwch yr elifiant) | Nodwch pa gyfleuster neu gyfleusterau safonol ar eich trwydded safonol rydych am eu hildio | Cyfeirnod grid cenedlaethol eich pwynt samplu, pwynt gollwng neu ardal ollwng |
|---|---|---|---|
| Elifiant masnach sy'n cynnwys dŵr proses o weithgareddau cynnyrch llaeth | | | SK 09876 54321 |
| | Carthffrwd sydd wedi derbyn triniaeth eilaidd i'r ddaear | | SK 12345 09876 |
| | Trochdrwyth defaid gwastraff a ollyngwyd (gwaredwyd) ar dir | | Tir â'i ganolbwynt yn SK 09876 12345 |

Ym mhedwaredd golofn y tabl: os oes gennych bwynt samplu, dyfynnwch y cyfeirnod grid yma. Os nad oes gennych bwynt samplu, defnyddiwch rif cyfeirnod eich pwynt gollwng. Ar gyfer ardaloedd gwaredu, defnyddiwch y cyfeirnod grid cenedlaethol a nodwyd fel tir â'i ganolbwynt yn y cyfeirnod grid cenedlaethol.

### 3b Newidiadau i'r amodau sy'n weddill

Os credwch y bydd angen newid amodau eich trwydded o ganlyniad i ildio rhan o'ch trwydded, ticiwch y blwch 'ydw'. Os credwch nad oes unrhyw newidiadau i'w gwneud i'ch trwydded, ticiwch y blwch 'nac ydw' ac ewch yn syth i adran 4.  Os byddwch wedi ticio 'ydw', bydd angen i chi lenwi ffurflenni i amrywio eich trwydded. Mae gwahanol ffurflenni ar gyfer gwahanol weithgareddau.

Bydd angen llenwi rhan C2 - cyffredinol - amrywio trwydded bwrpasol ar gyfer pob amrywiad.  Bydd angen i bawb lenwi naill ai ran C6 neu ran C7 (ar gyfer gweithgareddau penodol). Bydd angen i bawb lenwi rhan F2 sy'n ymwneud â thaliadau.

## 4 Y dyddiad yr hoffech ildio

Nodwch y dyddiad yr hoffech ildio'r drwydded. Rhaid i chi roi **o leiaf 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad hysbysu**, h.y. y dyddiad y caiff y ffurflen ei llenwi.

Bydd y deiliad presennol yn gyfrifol am gydymffurfio â'r drwydded ac unrhyw daliadau cysylltiedig hyd nes y bydd y broses ildio wedi'i chwblhau. Os bydd y gwaith gollwng yn parhau ar ôl gweithredu'r broses ildio, gellir eich erlyn. Dylech sicrhau eich bod wedi rhoi'r gorau i'r broses ollwng rydych yn ei hildio ar y dyddiad a nodir gennych yng ngwestiwn 4.

## 5 Datganiad

Er mwyn ildio trwydded, mae angen cytundeb pob un o ddeiliaid y drwydded arnom. Dylai pob deiliad gwblhau datganiad drwy dicio'r blwch a nodi ei enw a'r dyddiad. Os ydych yn llofnodi ar ran cwmni, dylech nodi enw'r cwmni.